

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	16 Gorffennaf 2019
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Cemlyn Rees Williams
Swyddog Cyswllt:	Bethan Griffith
Rhif Ffôn Cyswllt:	01286 679 195
Teitl yr Eitem:	Pris Cinio Ysgolion Cynradd Medi 2019

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Peidio â chodi targed incwm cinio ysgolion cynradd yn unol â chwyddiant sydd yn golygu na fydd pris cinio ysgolion cynradd yn codi yn Medi 2019.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Os na fydd yr adran yn cynyddu'r pris yn unol a chwyddiant yn 2019-20 bydd yn creu diffyg yn y gyllideb o £82,220.

3. CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

Gan fod cyllideb arlwyo cynradd yn dibynnu ar godi incwm drwy werthiant prydu ysgolion cynradd, mae angen i'r incwm a ddaw o dalu am ginio mewn ysgolion cynradd gadw fyny efo chwyddiant costau'r gwasanaeth.

Mae targed incwm cinio ysgolion cynradd wedi cynyddu 4.1% yn 2019-20 oherwydd cynydd mewn costau – cost cyflog byw (“living wage”) yw'r prif reswm dros y cynydd.

4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Pan yn cymharu pris cinio ysgolion cynradd Gwynedd sef £2.50 gyda 15 Cyngor arall yn Nghymru (atodiad 1), mae yn un o'r rhai uchaf – 3 Sir arall sydd yn codi £2.50, mae'r gweddill yn rhatach.

46% ar gyfartaledd o ddisgyblion cynradd Gwynedd sydd yn bwyta cinio ysgol ar hyn o bryd. Cyfartaledd 2016-17 oedd 50% (pris cinio £2.30) a cyfartaledd 2017-18 oedd 46% (pris cinio £2.50). Mae'n amlwg o'r wybodaeth uchod fod nifer o rieni wedi penderfynu peidio dewis cinio ysgol i'w plant yn dilyn codi'r pris yn Medi 2017. Mi

fyddai codi'r pris yn uwch o bosibl yn lleihau y niferoedd sydd yn dewis cinio ysgol ymhellach gan na fyddai yn fforddiadwy i deuluoedd sydd ar incwm isel ond ddim yn gymwys i ginio am ddim.

Byddai codi'r pris cinio yn golygu codiad o £2.50 i £2.60.

5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Bydd y pris cinio yn weithredol o Medi 2019.

6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Barn y Swyddogion Statudol:

i. Y Swyddog Monitro: Dim sylwadau i'w hychwanegu ynglyn â phriodoldeb.

ii. Y Pennaeth Cyllid: Mae rhan 4 o'r adroddiad yn amlygu'r risg o leihad pellach yn y galw pe bawn yn cynyddu'r pris cinio mewn ysgolion cynradd, ac mae rhesymeg amlwg o blaid y penderfyniad a geisir. Ynglŷn ag ariannu'r bwloch perthnasol yng nghyllideb yr Adran Addysg, cadarnhaf wrth lunio cyllideb y Cyngor ar gyfer 2019/20, neilltuwyd darpariaeth i'r perwyl hyn mewn cyllideb wrth gefn.